**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEM

Cyfarfu am 18.30, 3 Gorffennaf 2018 yn Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel

## Cofnodion

**Yn bresennol:**
David Rees AC (yn y gadair), Dr Robert Hoyle, Phillip Wallace, Wendy Sadler MBE, Sarah Jones, Andrew Mackenzie, yr Athro Ian Wells, yr Athro Faron Moller, Bob Cater, Lesley Kirkpatrick, Dr Rowena Jenkins, Dr Dayna Mason, Dr Emily Bristow, Ioan Bellin (yn cynrychioli Simon Thomas AC) a Leigh Jeffes.

**Croeso**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys ein siaradwyr, Phillip Wallace a Dr Robert Hoyle, a Dr Rowena Jenkins, yn cynrychioli'r Gymdeithas Microbioleg, Sarah Jones, Cadeirydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru, ac Emily Bristow o Blue Prism.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Oddi wrth: Yr Athro Keith Smith, Dr Geertje van Keulen, Dr Paul Hutchings, Dr Stephen Benn, Dr David Cunnah, Dave Jones, a'r Athro Tom Crick MBE, a longyfarchwyd ar gael ei benodi yn ddiweddar yn Athro Addysg Ddigidol ym Mhrifysgol Abertawe.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2018**
Roeddent wedi cael eu dosbarthu.

**Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Gwyddoniaeth a'r Cynulliad 2018**
Cyflwynodd Leigh Jeffes adroddiad byr ar ddigwyddiad Cymdeithas Frenhinol Cemeg eleni, a diolchodd i'r Cadeirydd am noddi'r diwrnod, ynghyd â Nick Ramsay AC a Simon Thomas AC. Roedd digwyddiad Gwyddoniaeth a'r Cynulliad dan ei sang o ran yr arddangosfa a'r gynulleidfa. Roeddem hefyd yn falch o groesawu Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, a Russell George AC, Cadeirydd Pwyllgor yr

Economi, Seilwaith a Sgiliau, a siaradodd ill dau. Cynhelir digwyddiad y flwyddyn nesaf ddydd Mawrth 7 Mai.

**Pynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol**
Anfonwch eich awgrymiadau at Leigh, os gwelwch yn dda. Bydd yr Athro Paul Hutchings, Cymdeithas Seicolegol Prydain, yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod ym mis Tachwedd.

**Adroddiad gan Dr Robert Hoyle, Prif Swyddog Gwyddonol, Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol**
Rhoes Dr Hoyle gyflwyniad ar ddatblygiadau diweddar, gan gynnwys lansio Adroddiad Adolygiad Reid. Câi sleidiau eu dosbarthu.
Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Robert am ei gyflwyniad.

**Cyflwyniad gan Philip Wallace, Cyfarwyddwr Cyswllt - TWI Ltd a Rheolwr Rhanbarthol Canolfan Dechnoleg TWI Cymru**
Cyflwynodd Mr Wallace sgwrs yn dwyn y teitl: "STEM - Good Intentions are 'not' Enough".
Câi sleidiau eu dosbarthu. Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Philip ac awgrymodd y gellid, yn y cyfarfod nesaf, fynd ar drywydd rhai o'r materion sy'n codi o'i gyflwyniad, a draddodwyd yn angerddol.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**
Rhoes y Cynrychiolwyr wybod i'r Grŵp am weithgareddau a gynhaliwyd yn ddiweddar ac a gynhelir yn y dyfodol.

**Unrhyw fater arall**
Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiadau cyfarfodydd 2019**
Am y tro, y dyddiadau yw:
Dydd Mawrth 5 Mawrth
Dydd Mawrth 2 Gorffennaf
Dydd Mawrth 5 Tachwedd

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Mawrth 6 Tachwedd (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol).

**Cloi’r cyfarfod**
Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben am 20.15.